

Cynhadledd ar Uffern

“...a phwy bynnag sy’n dweud wrtho, ‘y ffŵl’, bydd yn ateb am hynny yn nhân uffern.” (adn. 22)

Beth am ddarllen Mathew 5:21–26 ac yna myfyrio

Fe gyfarfu grŵp o weinidogion efengylaidd mewn tref yn yr Unol Daleithiau ychydig amser yn ôl i drafod y cwestiwn o uffern a cheisio darganfod pam eu bod mor amharod i bregethu ar y testun. Bu iddynt ddod i bedwar casgliad. Yr ydym am ystyried dau ohonynt heddiw a dau arall yfory.

Y rheswm cyntaf oedd eu bod yn ofidus rhag cael eu cysylltu gyda phregethwyr “tân a brwmstan” y gorffennol – pobl oedd â’u disgrifiadau byw o uffern yn rhai oedd yn cael eu hystyried fel rhai oedd yn ceisio manipiwleiddio pobl. Fe ddywedodd Jonathon Edwards, er enghraifft, mewn pregeth enwog ar bechaduriaid yn nwylo Duw... “mae y pydew wedi ei baratoi ar gyfer pechaduriaid, mae’r tân yn barod, mae’r ffwrnais yn boeth yn barod i’w derbyn.” Wrth gwrs, nod Jonathon Edwards oedd annog pobl i ddianc rhag y dicter oedd i ddod ond roedd ei iaith yn eithafol. Yn anffodus, mae rhai beirniaid yn barod i roi’r label “tân a brwmstan” ar unrhyw un sydd yn siarad am uffern er eu bod yn cyflwyno’r ffeithiau heb unrhyw ymdrech i fanipiwleiddio. Bu i’r gweinidogion rannu gyda’i gilydd eu consym Cristnogol am y mater yma.

Bu iddynt weld mai’r ail reswm eu bod yn amharod i bregethu am uffern oedd yr anhawster i gymodi ym meddwl rhai Cristnogion yr athrawiaeth am uffern gyda’r athrawiaeth am gariad Duw. Yr wyf wedi gwneud cryn dipyn o ymchwil yn y maes hwn ac yr wyf yn ymwybodol fod y rhan fwyaf o Gristnogion yn ei chael hi’n anodd credu fod Duw sydd yn gariad yn medru dioddef hyd yn oed dioddefaint tragwyddol un enaid yn uffern gan gynnwys Jwdas Iscariot. Bu rhaid i’r gynhadledd yma gydnabod fod yr athrawiaeth am uffern yn destun sydd yn anodd dod i delerau ag ef.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 5:29–30; 2 Pedr 2:1–10

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Rhestrwch esiamplau o farn Duw.
2. Beth ddigwyddodd i’r cyfiawn?

Gweddi

O Dad, cynorthwya fi i ddod i delerau gyda’r testun yma. Nid wyf am fy nylanwadu gan fy emosiynau i’r graddau nad wyf yn ffyddlon i’th Air. Arwain fi trwy dy Ysbryd yw fy ngweddi i’r canlyniad iawn. Yn enw Iesu. Amen.